# y dinesydd

Chwefror 1999 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 243

# T. W. Thomas ('Ab Eos'; 1901-99)

**Bu'r misoedd diwethaf yn rhai a welodd golli nifer o garedigion y Gymraeg yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Un a gyfrannodd yn helaeth dros flynyddoedd lawer oedd T. W. Thomas a fu farw ar 2 Ionawr yn 97 oed. Brodor o Waelod-y-garth oedd T. W., ac yn gefn mawr i'r achos yng nghapel Bethlehem yn y pentref. Pan oedd T. W. Thomas yn symud tŷ rai blynyddoedd yn ôl, fe luniodd ei weinidog ym Methlehem, y Parch. T. J. Davies, ysgrif-bortread ddifyr ohono a gyhoeddwyd wedyn yn y gyfrol *Ysgub o'r Wisgon* (1996), ac fe gynhwyswn yma ddetholiad o'r ysgrif gyda'i ganiatâd caredig. Mae'n werth nodi mai atgofion T. W. Thomas yw cynnwys *Llygad y Ffynnon* (1994), sef rhif 10 yng nghyfres casetiau yr Amgueddfa Werin, dan olygyddiaeth Robin Gwyndaf.**

'Mae'r cwpwrdd wedi mynd. Dechrau cael gwared ar rai pethau.'

Wedi munud o ddistawrwydd, rhoi plwc go ddygn i'w bibell, hen ffrind iddo. Gellir dweud iddo fyw yn y cymylau!

'Paratoi i hela 'mhac, welwch chi.'

Ni orffennodd mo'i frawddeg. Nid oedd raid iddo. Gallwn ddarllen ei feddwl. Rhaid ei fod yn teimlo dŵr yr afon yn cosi ei fodiau deg a phedwar ugain.

'Nid drwg i gyd oedd ei symud. Tu ôl iddo yn cwato ers dwn i ddim faint roedd ffenest liw. Drychwch arni.'

Rhaid cytuno mai da oedd y dadorchuddio ac ni allai neb wadu ceinder y ffenest. Eto, roedd i'r cwpwrdd llyfrau ei gymeriad unigryw. Celficyn crefftus o'r deri gorau, â'i lond o lyfrau Cymraeg. Rhai a gasglwyd ar hyd oes faith. Llyfrau a ddarllenwyd hefyd. Nid addurn yn unig mo'r silffoedd llawn ond tystiolaeth i ddiwylliant eang.

Gellir dweud bod y digwyddiad yna yn ddameg o fywyd T.W. Thomas, Tomos Wiliam i'w ffrindiau. Y gŵr cyhoeddus, pwerus. Y gŵr busnes llygadog a ddringodd i gopaon cwmni *Spillers*. Ynad Heddwch a Chadeirydd y Fainc. Un o Gymrodyr yr Eisteddfod Genedlaethol a Thrysorydd yr Orsedd. Cadd ei anrhydeddu gan y Frenhines am ei wasanaeth cyhoeddus. Catalog? Ie, ond un anghyflawn iawn. Cyfraniad, heb os. Hoff ganddo adrodd stori am gyfaill prin ei Saesneg yn ei gyflwyno mewn cyfarfod cyhoeddus. Wedi sôn yn glodforus am a wnaeth i'w fro, meddai:

'Iw will ôl agri with mi, hi has bin a public convenience for us ôl!'

Symudwch chi'r gŵr cyhoeddus ac fe gewch ffenest liw gyfoethog. Nid pawb a'i gwelodd, ond mae hi'n un gwerth edrych arni a rhyfeddu at y lliwiau cyfoethog a blethwyd iddi.

Brodor o Waelod-y-garth ydoedd, pan oedd y pentref hwnnw yn Gymraeg a Chymreig ... Pawb yn adnabod ei gilydd a phob un yn cael 'i nabod wrth ei enw cyntaf - Daniel o'r Felin, Dan bachan Mari, John bachan Jo, Siân Hywel, Mari gwitw Ifan, Dai Ffig, Ann gwitw Moses Siôn. Enwau sy'n goglais dychymyg ac yn dystiolaeth i'r hen gymdogaeth dda. Eu hacen nhw sy ar wefus T.W. - y Wenhwyseg. Fydd e fyth yn sôn am Sain Ffagan, eithr San Ffacan a Shin Nicôlas ac fe soniodd y dydd o'r blaen am wraig yn *bocstera*.




Dathlu twf addysg Gymraeg yn y ddinas - gweler tud. 6

Mae hen ddresel dderw gydag e. Wedi bod yn y teulu ers achau. Mae'n pingo o jwge lystyr o amrywiol faint. Arferai ei rieni ddefnyddio pedwar ohonynt i gadw arian at wahanol achosion a gefnogent. Un i'r capel, un i'r Cwrdd Chwarter, un i Undeb yr Annibynwyr a'r llall i'r Steddfod Genedlaethol. O'r jwg hwnnw y cafwyd pres i dalu am ei ymweliad cyntaf, gyda'i rieni, â Steddfod Caerfyrddin yn 1911. Coron oedd pris y sgyrsion o Gaerdydd, hanner pris i blentyn dengmlwydd oed! Dyfed oedd yr Archdderwydd.

Yn y tridegau y'i derbyniwyd i'r Orsedd. Pan

>tud 3

Bydd teyrngedau i Gilbert Ruddock a Mair Elvet Thomas yn y rhifyn nesaf.

**Ar 14 Rhagfyr, bu farw'r bardd a'r ysgolhaig, Gilbert Ruddock. Lluniodd gerdd yn arbennig ar gyfer *soirée* yng nghartref Hywel a Gwyneth Jeffreys, nos Lun, 6 Gorffennaf 1998, i godi arian at Gymdeithas y Deillion – cerdd a oedd yn tynnu ar ei brofiad ef ei hun o golli ei olwg – ac fe'i datganwyd ganddo yn ystod y noson honno. Dyma'r gerdd olaf iddo ei llunio, a diolchwn i Mrs Rhian Ruddock am y fraint o gael ei chyhoeddi yma am y tro cyntaf.**

## PAN WELWCH DYWYLLWCH DYN

**Pan welwch dywyllwch dyn,
nac ofnwch.
Estynnwch law i'w gyffwrdd
a'i lenwi â goleuni.**

**Llenwch y gwyll â lluniau lliw.
Byddwch arlunydd
a pheintiwch ffordd a ffos
yn gelfyddyd gain.
Dangoswch y daith
a lleoliad ei throadau oll.**

**Pan welwch dywyllwch dyn,
rhowch,
drwy'r amser,
fraich ac ysgwydd hyder
i ddifa'r cyfyngderau.
Heriwch yr hirnos
â heulwen arweiniad.
Cerddwch ar y blaen
fel gwawr
yng ngrym eich gweld.**

**GILBERT RUDDOCK (1938-98)**

# Y Dinesydd

**Chwefror 1999, Rhif 243. ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mawrth at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 20 Chwefror:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333080)
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Mrs Siriol Wilde, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499)
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 01222-623749)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

.................................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................


.................................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 5** **Chwefror 1999**



**Ar Draws**

1. Gwneud treth gofal yn gryfhaol 10
7. Ras i Wil i wneud bwyd i'r anifail 7
9. Curo dim yn dilyn pyg 4
11. Tras Llywelyn yn arwain ni yn ôl heb fod yn hollol iach 5
12. Oes yn ôl o gwmpas i ni yn pyncio 6
14 'Dwg fi'n iach ... ... ...
Derbyn fi ar ben y daith' (c.D.T.E) 1'1,5,4
18. Ffermio a newid themâu 6
20. 'Na ... Dduw â'th reswm noeth
Cred ei addewid rad' (c.L.E.) 5
22. Ystyriaeth yn troi'n hyll wrth roi'r cyntaf yn lle'r olaf 4
23. 10 yn hanner glân mewn nod 7
24. Yli, cer i Fôn i grwydro, neu golli'r ffordd 11

**I Lawr**

2. Osian efallai a'i elyn yn y bola 7
3. Darn drylliedig o ennaint 4
4. Griddfan! Dim cadwyn yn Lloegr 5
5. Torri estyll hon 5
6. 'Mae'r Beibl Bach yn awr yn gyson
Yn iaith dy fam, i'w gael er ...' (Rh.P.) 5
8. Awchu am chwe arth gynddeiriog a phedol 8
10. 23 copa, deg a fi yn y canol 8
13. Sam wyneb i waered allan yn y de 3
15. Gwneud addysgwyr allan o naw arth 7
16. Tawel sain crynedig y blodyn 5
17. 'Nos yw henaint pan ddaw cystudd
Ond i ... dyn a'i hwyrddydd' (Ceiriog) 5
19. Gwledd i faban efallai! 5
21. Golau yn garedig i'r glust 4

**Atebion Croesair 4 (Rhagfyr/Ionawr 1998/99)**

**Ar Draws:** 1,3. Wele'n gwawrio; 7.Mai preseb; 8.Tranc; 9.Ifan; 10.Ganu; 16.Gofio; 17.Dail arian; 8.Ôl-ddyled; 19.Gwael.

**I Lawr:** 1.Wythnos i'w chofio; 2.Neilltu; 3.Gardas; 4.Ansicr; 5.Robin; 6.Os cysgu'n dawel; 7.Morfa; 11.Adran; 12.Egniol; 13.Afraid; 14.Boliog; 15.Bedydd.

Derbyniwyd 4 ateb hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfrau at Carys Humphreys, 1 Bodlondeb, Bangor. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Gwenda Hopkins, Llanisien; Gwenllian Gwyn Jones a Buddug Roberts - y ddwy o'r Eglwys Newydd.

**Cystadleuaeth Chwefror 1999** : Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 22 Chwefror.

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

<tud 1.
welodd yr Archdderwydd, Pedrog, e'n esgyn i'r Maen Llog, meddai:

'Ab Eos yw hwn. Mae ei dad, Eos y Garth, yn denor gwych a'i lais yn llanw capel Berry.'

Glynodd yr enw. Dyfnhaodd ei ymrwymiad i'r Steddfod. Bu'n gyd-drysorydd y Steddfod a'r Orsedd â Brynallt. Wedi dydd hwnnw T.W. lanwodd y ddwy swydd am sbel. Fe oedd un o'r lleisiau cryfaf o blaid cael y pwyllgorau lleol i roi pob elw a wnaethant at waith y Steddfod. Y duedd oedd rhannu rhwng y cŵn a'r brain. Glyn Ebwy, 1958, oedd y gyntaf i fabwysiadu'r drefn. Gwrthododd Caernarfon yn 1959 ond ufuddhaodd Caerdydd yn 1960 a dyna fu'r drefn oddi ar hynny, er mawr fudd i'r Steddfod, heb os. Fe'i dewiswyd yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Caerffili yn 1950. Ymfalchïai mai yno y gweithredwyd y rheol Gymraeg am y tro cyntaf. Roedd yn un o benseiri honno a diau mai dyna un o'r cyfraniadau mawr i ddiogelu cymeriad yr Eisteddfod. Mae'n cael boddhad mawr fod pawb yn derbyn y rheol yn ddigwestiwn bellach. Bu eilwaith yn Gadeirydd pan ddaeth y Steddfod i Gaerdydd yn 1960. Arweiniodd ei Brydeindod e i beth helynt! Gwahoddwyd y Frenhines i'r ŵyl. Torrodd cenlli o feirniadaeth. Cadd sypyn o ymddiswyddiadau gan rai a wrthwynebai'r bwriad. Go brin yr ailadroddai'r camgymeriad hwnnw. Treiodd ei Brydeindod wrth i'w Gymreictod a'i Genedlaetholdeb aeddfedu. Mae'n iachach person heddiw nag ydoedd yn 1960 ac ef ei hun sy'n dweud hynny drwy'r cymylau mwg!

Fel un o frodorion y Fro, ardal sydd â thraddodiad hir o ganu tribannau yn perthyn iddi, meistrolodd yntau'r grefft o'u canu. Pan oedd yn cynrychioli *Spillers* gohebai â ffermwyr megis Thomas Adams, Eglwys Fair, y Fro a Thomas Jenkins, Bryndu, Bedwas trwy gyfrwng tribannau:

Ma'r gwair yn brin eleni
Gan bob rhyw ffarmwr teidi,
Ond rhaid yw pleso gŵr o'r Fro
Sy ym Mryndu yn ffermu.

Mae gen i das fach ddecha
O'r gweiriach cymysg gora,
Cewch lwyth neu ddau o'r piwra ma's
O lasdir bro Llanganna.

... Mae cenedlaethau wedi ei weld yn ei wisg borffor gyda'i deyrnwialen yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog y Llys ar lwyfannau y Brifwyl. Gŵr tal, swmpus yn cario'i swydd fel y dymunai Cynan iddo wneud. Ond mae gweld y person sydd y tu ôl i'r wisg yn datgelu i chi gymeriad lliwgar. Er imi ofidio gweld y cwpwrdd llyfrau yn cael ei symud, eto, o'i symud daeth y ffenest liw hyfrytaf i'r golwg a cholled oedd cwato honno. Ac mae nabod T.W. yn ei fro, gyda'i bobol, yn ei gapel yn rhoi cip ichi ar berson diwylliedig ac yn dangos ichi y cyfoeth a gollwyd o Forgannwg pan gollwyd y Gymraeg a'r ffordd Gymraeg o fyw. Ffenest yw e i orffennol godidog, ac mae cael edrych drwy'r ffenest honno ar a fu yn hwyl ac yn frath sy'n sobri rhywun ...

**T.J. Davies**

## Surrexit

Er nad yw cwmni Surrexit wedi bod yn gyfrifol am gynhyrchu'r *Dinesydd* ers peth amser erbyn hyn, y mae rhai yn dal i gysylltu â hwy yn ei gylch. A wna pawb, felly, ddiwygio eu rhestrau postio/llyfrau cyfeiriadau, gan gysylltu o hyn ymlaen â Linda Thomas ynghylch materion golygyddol, Robin Jones ynghylch dosbarthu, Menna Gwyn ynghylch hysbysebion a Rheon Tomos ynghylch materion ariannol (gw. t.2 am eu cyfeiriadau/rhifau ffôn).

## Calendr y Dinesydd

**Mawrth, 16 Chwefror**
Cymdeithas Hanes Cymru Prifysgol Caerdydd: Darlith gan Huw Ethall ar 'Pennar Davies: Y Dyn a'i Waith' yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.15 p.m. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 16 Chwefror**
Cymrodorion y Barri: Noson o adloniant yng nghwmni Helina Price a'i disgyblion, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.

**Mercher, 17 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Alun Guy yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.

**Mercher, 17 Chwefror**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs gan Rhys Morgan yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.

**Gwener, 19 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Geiriadura' gan Bruce Griffiths yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Llun, 22 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Dolly y Ddafad, Flavr Favr a'r Bioleg Newydd.' Darlith gan Dr Deri Tomos (Prifysgol Cymru, Bangor) ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Gwener, 26 Chwefror**
Cymrodorion y Barri: Cinio Gŵyl Ddewi (Gwestai: Dr Siân Rhiannon), yng ngwesty Mount Sorrel am 7.30 p.m. erbyn 8.00 p.m. Cysyllter ag Elsie Avery (01446-732203).

**Llun, 1 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cyngerdd Gŵyl Ddewi yng nghwmni Côr Plant Caerdydd (Arweinydd: Mair Robins) yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Llun, 1 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch: Cinio Gŵyl Ddewi yng Nghlwb BP, Sili, am 7.30 p.m. Cysyllter â Gerwyn Williams (512016).

**Mercher, 3 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Dathlu Gŵyl Ddewi (Gwestai: Menna Gwyn), yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.

**Mercher, 3 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: Brethyn Cartref yng nghwmni Eirlys Davies, yn festri Eglwys y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.

**Gwener, 5 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd: Cinio Gŵyl Ddewi yn Neuadd Aberdâr, Parc Cathays, am 7.15 p.m. Cysyllter ag Idwal Hughes (623873).

**Llun, 8 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson y Dysgwyr dan ofal Gwilym Roberts yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Mawrth, 9 Mawrth**
Cymdeithas y Cymod: Adroddiad ar gynhadledd heddwch yn yr Iseldiroedd gan Alma Roberts a Richard Jones, yng Nghapel y Crwys am 7.00 p.m.

**Mercher, 10 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen y Garth: Sgwrs gan Wynne Lloyd am yrfa Bryn Terfel, ar aelwyd Llys-y-coed, Pen-tyrch, am 8 p.m.

**Iau, 11 Mawrth**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Gwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.00 p.m. erbyn 7.30 p.m. Sgwrs gan Euryn Ogwen am deledu digidol. Cysyllter â Valmai Evans (612104).

**Gwener, 12 Mawrth**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Swper Gŵyl Ddewi (Gwestai: Yr Athro J. Gwynfor Jones), yn neuadd Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m. Cysyllter â Megan Williams (628733).

**Gwener, 12 Mawrth**
Cymry'r Wenallt: Sgwrs gan Ian Miller, yng Nghlwb Rygbi'r Eglwys Newydd, Heol Felindra, am 8 p.m.

**Sadwrn, 13 Mawrth**
Ysgol Undydd dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Caerdydd ar farddoniaeth yr ugeinfed ganrif, yn 38 Park Place. Darlithydd: Alan Llwyd. Manylion pellach: Gwen Awbery (874832)

**Llun, 15 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Mwy Na Mwydyn.' Darlith gan Dr Tecwyn Harris (Prifysgol Caerwysg) ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 16 Mawrth**
Cymrodorion y Barri: Mrs Mallt Anderson yn cofio 'neb' mewn cornel cae, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

## Parti Nadolig Menter Caerdydd a CYD

Cynhaliwyd Parti Nadolig Menter Caerdydd a CYD yng Nghlwb Ifor Bach nos Iau, 10 Rhagfyr. Daeth dros ddau gant ynghyd yng nghwmni'r band twmpath byd-enwog hwnnw o Frynaman, *Jac y Do*. Cychwynnodd y noson am 8.00 y.h. a bu'r band wrthi am yn agos i ddwy awr a hanner.

Weithiau gallech fentro bod dwy droed chwith gan rai oedd yn dawnsio ac ar adegau roedd symudiadau rhai allan o 'sinc' â'r gerddoriaeth, yn enwedig i'r dawnsfeydd mwy cymhleth. Ond doedd hynny ddim yn bwysig o gwbl, roedd yr holl gamgymeriadau'n ychwanegu at yr hwyl! Ac ynghanol y miri daeth Mr M. Owen o Fanc Barclays i gyflwyno siec am £1,000 i helpu dysgwyr llai ffodus ardal Caerdydd i fforddio mynychu cyrsiau Cymraeg. Yn ôl y sôn, gwnaeth pawb fwynhau eu hunain ma's draw, a dywedodd pawb eu bod yn edrych ymlaen at y gweithgaredd nesaf i'w gynnal ym mis Ionawr, sef noson gymdeithasol i ddathlu Gŵyl Santes Dwynwen.

Am ragor o fanylion am gronfa ddysgwyr Menter Caerdydd ffoniwch Padi Phillips ar Gaerdydd 312293 neu 486469 neu Richard Lewis ar Gaerdydd 874710.

**Padi Phillips** (Swyddog Cyswllt CYD Caerdydd a'r Fro)

## Llongyfarchiadau

– i Bethan Roberts a Nia Thomas ar gael eu penodi yn aelodau o dîm grantiau Bwrdd yr Iaith.

– i Jonathan Jones ar gael ei benodi'n Brifweithredwr Bwrdd Croeso Cymru.

– i'r Parch. Gareth Edwards ar gael ei benodi'n Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

– i Marlene Davies o'r Eglwys Newydd, sy'n ddarlithydd hŷn mewn cyfrifyddiaeth ym Mhrifysgol Morgannwg, ar dderbyn cymrodoriaeth ymchwil gan gwmni Grant Thornton, Caerdydd.

– i Glenda a Gwyn Davies, Rhiwbina, ar enedigaeth Sara Mererid, chwaer i Rebeca Mair.

- i Mary Pennington a Gerallt Jones ar eu priodas ddiweddar. Mae'r ddau'n byw yn Hong Kong ond pan ddechreuwyd y trefniadau priodas teimlent na allent byth feddwl am briodi y tu allan i Gaerdydd. Doedd dim amdani felly ond codi tocyn gwerth £1200 i ddod yn ôl i'r hen wlad. Mae Gerallt yn gyfreithiwr yn Hong Kong. Hyd ei hymddeoliad yn ddiweddar, roedd ei fam, Mrs Eirlys Pritchard Jones yn brifathrawes Ysgol Gyfun Cymer, Rhondda.

- i Siôn Brynach, Treganna ar ennill gradd M.Litt. o Rydychen am ei waith ymchwil ar farddoniaeth Gymraeg yr 80au yng Nghymru. Mae Siôn yn gweithio gyda'r Bwrdd Nwy a bydd y rhain yn adegau prysur iddo gan ei fod wedi cael ei ddewis i fod yn ymgeisydd Plaid Cymru dros Orllewin Clwyd. Mae'n fab i'r Parchedig a Mrs Saunders Davies. Mae ei wraig Cathrin (sy'n enedigol o Drefnant) yn ymchwilydd rhan-amser gydag S4C.

## Rhodd sylweddol i Gymdeithas Alzheimer

Mae Hywel a Gwyneth Jeffreys yn enwog am y gwaith a wnânt yn casglu ar gyfer achosion da trwy drefnu nosweithiau diddan a hwyliog yn eu cartref ar fin y llyn. Bu'r ddau wrthi ychydig yn ôl yn casglu arian ar gyfer Afiechyd Alzheimer. Casglwyd y swm tywysogaidd o £900. Yn y llun mae Hywel yn trosglwyddo siec i Mrs Marjorie West, Llywydd Cymdeithas Alzheimer a'r Parchedig Haydn Thomas, Trysorydd. Yn y llun hefyd mae Mrs Gwyneth Jeffreys.

## Cydymdeimlwn

– â Mr Brian Spencer, Yr Eglwys Newydd, a gweddill y teulu, yn y brofedigaeth o golli ei wraig, Mrs Rachel Auriol Spencer.

– â theulu'r ddiweddar Evelyn Williams, cyn-bennaeth Teledu Plant y BBC. Un o ferched Cwm Rhondda ydoedd, ac fe gyplysir ei henw'n hir â rhaglenni 'Awr y Plant'. Yn ei gwaith fel actores a chynhyrchydd gyda'r BBC, cyfarfu â llawer o enwogion byd llên a drama, a hoffai adrodd un o sylwadau Dylan Thomas wrthi: 'We've both been fortunate being born under the stars of Wales. There is music here in the chimneys, and the autumn sun here is aflame.'

- ag Aled Davies, Treganna, sy'n gweithio i Asiantaeth yr Amgylchedd, ar golli ai fam, Margaret Eirlys, ar drothwy'r Nadolig yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth wedi cystudd hir a blin. Roedd hi'n chwaer i Garwyn Davies, gohebydd *Y Dinesydd* ym Mhenarth a'r Fro, ac estynnwn ein cydymdeimlad iddo yntau a gweddill y teulu. Roedd Eirlys a'i gŵr Meirion yn gyfarwydd iawn i aelodau Eglwys y Crwys gan eu bod wedi bod gyda nhw ar rai o'u teithiau dramor.


- â Brian a Glesni Whettleton ar farw mam Brian yn Ysbyty Treforys ar drothwy'r Nadolig.

- â theulu'r ddiweddar Glenys Eirwen Roberts, Cyncoed, Caerdydd, gweddw'r diweddar Hywel D. Roberts a oedd hyd ei ymddeoliad yn bennaeth Adran Addysg Coleg Cyncoed. Bu ei hangladd yng Nghapel y Crwys ddechrau mis Rhagfyr a chladdwyd ei gweddillion ym mynwent Ebeneser, Abergwili. Bydd hiraeth ei meibion Glyn a Dewi, ei merch yng nghyfraith Elin a'i hŵyr Dafydd yn fawr ar ei hôl.

- â theulu'r ddiweddar Doreen Fairclough a fu farw ddechrau Rhagfyr. Gweddw oedd i Jim Fairclough a rhoes y ddau gyda'i gilydd flynyddoedd o wasanaeth i Eglwys Dewi Sant, oedd yn agos iawn at eu calonnau. Roedd gwreiddiau Doreen yng ngogledd sir Benfro ac ar adeg pan oedd cerdded pellteroedd yn gyffredin arferai ei thad (oedd yn bregethwr) gerdded o Flaenclochog i gapel Llandisilio i bregethu'r Sul.

## Esgob(ion) annwyl!!!

Mae'r Eglwys yng Nghymru'n wynebu sefyllfa ddiddorol eleni. Bydd yn ethol tri esgob ac un archesgob yn ystod y flwyddyn. Mae Esgob Roy (Llandaf) ar fin ymddeol ac mae'n bwriadu mynd i fyw i Langynnwr. Ddechrau mis Rhagfyr cafwyd noson ffarwelio iddo yn Eglwys Dewi Sant. Yn ôl eu harfer roedd y gwragedd wedi llenwi'r byrddau â phethau da a daeth nifer o dalentau'r eglwys i'n diddanu cyn i'r ficer, y Parchedig Aled Edwards, gyflwyno llun mewn ffrâm o *Cofio* (Waldo) yn anrheg i'r esgob.



*Llun: Islwyn Jenkins*

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## MINNY STREET, CAERDYDD

Llawenydd yw medru cyhoeddi fod Cwrdd Eglwys ddechrau mis Rhagfyr wedi cytuno yn unfrydol i alw'r Parchg Eifion Powell (Prifathro Coleg yr Annibynwyr, Aberystwyth) yn ôl i Minny Street fel Gweinidog i Iesu Grist. Ac yntau wedi ateb y gwahoddiad yn gadarnhaol, edrychwn ymlaen i'w groesawu yn ôl i Gaerdydd ym mis Medi, yn dilyn ei ymddeoliad o'r Coleg.

Fe'n harweiniwyd tuag at y Nadolig mewn dwy oedfa arbennig ar Sul, 20 Rhagfyr. Yn y bore, bu plant yr Ysgol Sul yn cyflwyno hanes y Geni ar lafar ac ar gân. Diolch i'r Arolygwyr, Angela Poole ac Anne Weeks ynghyd â'r athrawon a'r rhieni am eu gwaith paratoi a diolch arbennig iawn i'r holl blant fu'n cymryd rhan. Yna nos Sul, cafwyd gwasanaeth Naw Llith a Charol wedi ei drefnu gan Mrs Meudwen Davies a Miss Marian Lake. Diolch o galon iddynt hwythau ac i'r nifer fawr o aelodau fu'n cynorthwyo yn y gwasanaeth.

**Llongyfarchiadau** i Nia (merch y Parchg Ieuan a Mrs Eunice Davies) ar ei phriodas â David Thompson yn Minny Street ar 22 Ragfyr. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt.

**Bu farw** un o'n haelodau, Mr David P. Williams (Y Mynydd Bychan) ddechrau Ionawr. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'i briod, Nansi a'r teulu cyfan.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Eiluned Davies (Cyncoed) ar farwolaeth ei phriod, Mr Russell Davies

## BETHEL, RHIWBINA

Sul ola 1998, fe aeth nifer dda o aelodau Bethel i wasanaeth arbennig yn Salem, Treganna, i nodi ymddeoliad y Parchg D. Haydn Thomas fel gweinidog Salem, Bethel a Holy Trinity, Y Barri.

Bu'r Parchg D. Haydn Thomas yn weinidog arnom ym Methel am un mis ar bymtheg ac yn ystod y gwasanaeth diolchodd Mr Eifion Hopwood iddo am ei waith yn yr eglwys.

Ein gweinidog newydd fydd y Parchg Evan Morgan, Machynlleth, sydd wedi gofalu am eglwysi ym Mro Ddyfi er 1989. Disgwylir iddo ddechrau ar ei waith yng Nghaerdydd fis Ebrill.

Mawr yw ein diolch i'r plant a'r bobl ifainc am eu cyfraniadau i'r gwasanaethau cyn y Nadolig. Diolch i Aled Hill am gynrychioli Bethel yng ngwasanaeth yr Adfent a gynhaliwyd gan blant eglwysi'r ddinas yng Nghapel y Crwys.

Noswyl y Nadolig cynhaliwyd gwasanaeth 'Cannwyll a Charol' ym Methel ac roedd y capel bron yn llawn. Trefnwyd y gwasanaeth gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbina a braf oedd gweld cynifer o bobl ifainc yr ardal yn cymeryd rhan. Gwnaed casgliad tuag at gronfa Tenovus.

## GWASANAETH O WERTHFAWROGIAD

Roedd Salem, Treganna yn llawn ar fore Sul olaf 1998 i ddiolch i'r Parchg D. Haydn Thomas, wrth iddo ymddeol, am ei wasanaeth i'r ofalaeth ers iddo gymryd gofal o'r tair eglwys yn 1991.

Cyflwynodd Mr Gareth Howe deyrnged Eglwys Holy Trinity, Y Barry i waith y bugail. Oni bai am ei arweiniad, ni fyddai'r eglwys mewn cyflwr i arwain yr ymgyrch dan adain Bwrdd y Genhadaeth i sefydlu gofalaeth newydd i gydio eglwysi'r Barri a'r Fro â chaplaniaeth newydd maes awyr Caerdydd. Cyfeiriwyd at gyfraniad Penuel, Y Barri wrth sefydlu'r ofalaeth, ac er ei chau ar ddiwedd y 90au, braf oedd clywed Miss Kitty Jones, un o'i chyn-aelodau sydd wedi ymuno ag un o eglwysi eraill yr enwad, yn cyflwyno'r emyn cyntaf.

Diolchodd Mr Richard Hall Williams am wasanaeth Haydn - a dyma sut yr adnabyddir ef gan bawb - ers iddo gymryd arolygiaeth Eglwys Salem, Treganna yn 1977. Roedd tri chwarter aelodaeth bresennol yr eglwys wedi eu derbyn yn ystod ei gyfnod fel gweinidog. Siaradodd Mr Eifion Hopwood yn huawdl am gyfraniad y bugail yn ystod yr 16 mis ers i Eglwys (Wesleaidd) Bethel, Rhiwbina ymuno â'r ofalaeth. Cyflwynodd y Parchg W.I. Cynwil Williams, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, ddiolch am wasaneth y Parchg D. Haydn Thomas i'r enwad. Roedd ef yn bresennol wrth sefydlu Mr Thomas am y tro cyntaf fel Gweinidog Gofalaeth Pumsaint a'r Cylch yn 1956. Symudodd yn 1961 i ofalu am Eglwysi Tyddewi ac oddi yno i Gaerdydd fel Cyfarwyddwr Cyngor Henoed Cymru tan droi nôl at y weinidogaeth lawn amser yn 1991.


D. Haydn Thomas

Gweddïwyd gan Mr D. Meirion Evans, Darpar Lywydd Henaduriaeth 'East Glamorgan' a'r Parchg Pamela M. Cram, Ysgrifennydd Cynorthwyol Talaith Cymru yr Eglwys Fethodistaidd. Ar ran eglwysi'r ofalaeth, cyflwynodd Mr T.J. Evans, pen-blaenor Salem, gyfrol ddiweddaraf Gwasg Gregynog ar fywyd ac emynau Ann Griffiths, Dolwar Fach, fel arwydd fechan o ddiolch eglwysi'r ofalaeth i'w bugail, a blodau i Mrs Doreen Thomas a fu'n gefn iddo ac yn brysur dros y blynyddoedd gyda gweithgarwch y merched. Cymerwyd rhan gan aelodau eraill o'r tair eglwys mewn gwasanaeth dwyieithog nodedig a lywyddwyd gan y Parchg Gareth Reynolds, Llywydd Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg.

Diolchodd y Parchg D. Haydn Thomas a Mrs Doreen Thomas yn wresog i bawb am eu cefnogaeth. Braf oedd cael croesawu'r teulu i'r cyfarfod hapus ac i gynnig panaid o de i bawb cyn paratoi i wynebu her y flwyddyn newydd. Bryd hynny, disgwylir yn eiddgar y Parchg Evan Morgan (Machynlleth) i arwain yr ofalaeth i mewn i'r Mileniwm newydd.

## BEDYDDIO YN Y CRWYS

Yn ddiweddar yn Eglwys y Crwys, bedyddiwyd Gwern Arthur, mab Brengain ac Aron Evans, Yr Eglwys Newydd, a Jac Arch, mab Menna ac Aled Arch Williams, Llandaf. Pob dymuniad da i'r ddau deulu.

## APOSTOL TSEINA

Pa Gymro oedd yr Ewropead cyntaf i ymweld â rhannau helaeth o Tseina yn y ganrif ddiwethaf? Pwy gyfieithodd y Beibl gyntaf i iaith y Tseineaid? Pwy lafuriodd am y nesaf peth at hanner canrif yn pregethu ac yn sefydlu eglwysi yn beth sydd bellach y genedl fwyaf yn y byd?

Nos Fawrth, 26 Ionawr, cafwyd ateb i'r cwestiynau hyn i gyd a mwy mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriett Street. Rhoddwyd yr atebion trwy gyfrwng lluniau, posteri, mapiau, darnau o bapurau dyddiol, a thraddodi diddan gan y Parch. Ddr Noel Gibbard.

Os carech chwithau hefyd wybod yr atebion yna prynwch lyfr diweddaraf y Dr Gibbard sef *Griffith John: Apostle to Central China* (Gwasg Bryntirion).

## AR DAF YR IAITH A DYFODD.

**Dathlu Hanner Canmlwyddiant Addysg Gyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd, 1949-1999**

Hanner can mlynedd yn ôl, ar 5 Medi 1949, agorwyd drysau yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf yng Nghaerdydd yn Ysgol Gynradd Parc Ninian, Sloper Road, gyda chyfanswm o 19 o ddisgyblion. Bu'r twf dros yr hanner can mlynedd oddi ar hynny yn syfrdanol, yn enwedig yn ystod yr ugain mlynedd wedi i'r ysgol honno (Ysgol Bryntaf fel y daethpwyd i'w hadnabod) gael ei rhannu'n bedair o ysgolion cynradd ar draws y ddinas yn 1979 a sefydlu ysgol uwchradd Gymraeg ar safle Ysgol Glantaf yn 1978.

Erbyn hyn aeth y pedair ysgol gynradd yn wyth a'r un ysgol uwchradd yn ddwy. Lle yr oedd 650 o blant yn derbyn addysg gynradd trwy'r Gymraeg yn hen Ysgol Bryntaf yn 1979, y mae erbyn hyn bron tair gwaith hynny yn mynychu ysgolion cynradd Cymraeg y ddinas, a'r 99 disgybl a oedd yn nechrau Ysgol Glantaf yn 1978 bellach wedi tyfu i ryw 1,500.

Yn ôl y Cynllun Addysg Gymraeg a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Caerdydd ym Medi 1998, fe dyfodd y galw am addysg gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd ar raddfa o 6.2% ar gyfartaledd yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gyda 75% o'r plant yn dod bellach o gartrefi di-Gymraeg. Disgwylir y bydd angen agor pedair ysgol gynradd newydd yn ystod y pum mlynedd nesaf, yn ardaloedd y Rhath, y Sblot Isaf, y Caerau a Phontprennau – cynnydd o 50% yn nifer yr ysgolion cynradd Cymraeg yn y ddinas – a'r nod tymor-hir, bellach, yn ôl y Cyngor, yw cael ysgol gyfrwng Cymraeg ym mhob un o wardiau'r ddinas. Nid rhyfedd fod cynifer yn teimlo fod rheswm da dros ddathlu twf addysg Gymraeg yn y ddinas ar ben yr hanner can mlynedd!

Mae'r dathlu eleni yn canoli ar fisoedd Gorffennaf a Medi:

**A. Taith y Fflam, Gorffennaf 1999**

Nid Caerdydd oedd yr unig le i weld sefydlu ysgol gynradd Gymraeg yn 1949. Tua'r un adeg, gwelwyd sefydlu cnwd o ysgolion eraill ar draws y wlad, yn flaenffrwyth y twf mawr a welwyd mewn addysg gyfrwng Cymraeg dros Gymru gyfan yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf. O'r herwydd y mae Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG), ynghyd ag Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) – dau fudiad cenedlaethol a fu, gyda'r Urdd, yn gwbl allweddol eu cyfraniad i ddatblygiad addysg Gymraeg yn y blynyddoedd wedi'r Ail Ryfel Byd – wedi pennu 1999 yn flwyddyn genedlaethol dathlu twf addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn rhan o'r dathlu, penderfynwyd trefnu Taith Fflam yr Iaith. Bydd y daith yn cychwyn o Aberystwyth ar 2 Gorffennaf, gydag un ffagl yn cludo'r fflam i'r gogledd ac un arall yn cychwyn am y de, gan orffen yng Nghaerdydd ddydd Iau a dydd Gwener, 8-9 Gorffennaf. Ar ôl cyrraedd Sloper Road, lle yr agorwyd ysgol gynradd Gymraeg gyntaf Caerdydd yn 1949, bydd y fflam yn cael ei chludo ar gylch o gwmpas ysgolion Cymraeg cynradd ac uwchradd y ddinas cyn i'r daith ddiweddu gerllaw adeilad y Cynulliad Cenedlaethol yn y Bae. (Am union fanylion y daith, dylid cysylltu ag Ysgrifennydd Cenedlaethol RhAG: Gwyn Pritchard Jones, 27 Pwll-y-myn, Parc Wyndham, Llanbedr-y-fro, Caerdydd. Ffôn: 01446-760608.)

Comisiynwyd Nia Wyn Jones i baratoi'r ffaglau ar gyfer cludo'r fflam. Ar ôl blwyddyn a hanner yn gweithio yn Llundain i'r cynllunydd celfi, Richard Pell, ac arddangos ei gwaith mor bell â Dubai, y mae Nia newydd agor ei stiwdio gwaith metel hi ei hun yng Nghaerdydd. Gwelir yma lun o'r ffagl hardd a baratôdd. Mae'r gwahanol haenau yng ngwneuthuriad y ffagl yn cyfleu'r twf mewn addysg Gymraeg dros y blynyddoedd.



Ffagl Fflam yr Iaith

Mae RhAG hefyd wedi cynhyrchu cwpan arbennig, am £5 yr un, i ddathlu hanner canrif o dwf addysg Gymraeg, ac arno englyn o waith Rhys Dafis. Gellir archebu rhai trwy anfon at Alun Thomas, Alltwen, 4 Highfield Gardens, Basaleg, Casnewydd NP1 9LR. (Gweler y ffurflen archebu ar dud. 11.)

**B. Dathliadau Bryntaf, Medi 1999**

Gan mai ym Medi 1949 yr agorwyd drysau'r ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghaerdydd, y mae Pwyllgor Cyn-ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bryntaf wedi trefnu prif ddathliadau agor yr ysgol ar gyfer Medi 1999. Dyma brif ddigwyddiadau'r mis ar gyfer eich dyddiadur:

*Dydd Sadwrn, 4 Medi*

Dadorchuddio murlun o waith plant ysgolion Cymraeg Caerdydd ar safle Ysgol Pen-cae, Llandaf. (Dyma lle mabwysiadwyd yr enw Bryntaf ar gyfer yr ysgol Gymraeg, er iddi gael ei sefydlu ddwy flynedd ynghynt mewn dwy ystafell yn Ysgol Parc Ninian.)

*Nos Sadwrn, 4 Medi*

Cinio'r Dathlu yn Neuadd y Ddinas am 7.30 p.m. Fe'i rhagflaenir gan dderbyniad swyddogol gan Arglwydd Faer Caerdydd. Cyfyngir y niferoedd i 400, ac er y rhoddir blaenoriaeth i gyn-ddisgyblion, rhieni ac athrawon Ysgol Bryntaf, a'u partneriaid, mae'r gwahoddiad i'r Cinio yn agored i holl garedigion addysg Gymraeg. Ar gyfer y sawl sy'n dod o bell, y mae'n fwriad trefnu pecyn penwythnos arbennig ar bris gostyngol mewn gwesty dros benwythnos y dathlu. Pe bai gennych ddiddordeb mewn mynychu'r Cinio, neu mewn derbyn manylion am y pecyn penwythnos, dylech gysylltu â Llywydd Pwyllgor y Cyn-ddisgyblion: Alwyn Evans, Y Dreflan, Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AE (Ffôn/Ffacs: 01248-602518; E-bost: alwynazo@aol.com).



Nia Wyn Jones wrth ei gwaith

*Bore Sul, 5 Medi*

Gwasanaeth o Ddiolch yn Eglwys y Tabernacl, Yr Ais. (Dyma union ddyddiad agor yr ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghaerdydd.)

*Dydd Sadwrn, 11 Medi*
Parti Mawr a Ram Jam ym Mharc Victoria mewn cydweithrediad â Rhieni Dros Addysg Gymraeg a BBC Radio Cymru.

Bydd dathlu mewn llawer dull a modd ar hyd y flwyddyn, wrth gwrs. Y mae CRICC, er enghraifft, yn trefnu Gŵyl Rygbi Saith-Bob-Ochr i fechgyn Blwyddyn 6 ysgolion Cymraeg Caerdydd a'r cylch ar gyfer Tymor y Pasg. Bwriedir cyhoeddi blodeugerdd o waith llenyddol cyn-ddisgyblion Ysgol Bryntaf, pobl megis Gwyneth Lewis, Emyr Lewis, Angharad Jones, Nia Powell, Huw Jones a Geraint Jarman. Y mae llyfryn o luniau hanes Ysgol Bryntaf ac atgofion am y blynyddoedd cynnar hefyd ar y gweill dan olygyddiaeth Iolo Walters. (Fe fyddai'r golygydd yn falch o dderbyn lluniau, dogfennau ac atgofion yn ychwanegol at y rhai sydd ganddo mewn llaw yn barod. Ei gyfeiriad yw 29 Heol y Bryn, Rhiwbina Caerdydd CF4 6HX. Ffôn: 612947.)

Os ydych am gael eich gosod ar restr postio ar gyfer manylion y dathlu, dylech anfon eich enw a'ch cyfeiriad at Iwan Guy, 20 Lakehill Drive, Y Bont-faen, Bro Morgannwg CF7 7HR (Ffôn: 01446-773425). Ac os gallwch yrru enwau a chyfeiriadau unrhyw rai o gyn-ddisgyblion Ysgol Bryntaf ato, byddai Mr Guy wrth ei fodd yn eu derbyn

Rhwng y cwbl, felly, bydd cyfle gwych eleni i ddathlu un o ryfeddodau diwedd yr hen fileniwm yng Nghymru cyn ymroi i groesawu canrif a mileniwm newydd – canrif a mileniwm y gwelwn, gobeithio, y Gymraeg yn mynd o nerth i nerth ynddynt!

# YSGOL GLANTAF

### Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Kate Auchterlonie, Sara Roberts ac Aled Jones ar gael cynnig lle ym Mhrifysgol Rhydychen; ac i Hywel Williams ar gael cynnig lle ym Mhrifysgol Caergrawnt. Pob hwyl iddynt yn eu harholiadau yn yr haf.

### Jiwdo
Llongyfarchiadau i Stephen Platt ar ennill medal arian mewn cystadleuaeth jiwdo yn ddiweddar.

### Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon
Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Glantaf yn arbennig o frwdfrydig yn trefnu pob math o weithgareddau er mwyn codi arian i'r ysgol. Cadeirydd y gymdeithas eleni yw Mr Wyn Jones, athro yn yr Adran Gwyddoniaeth.

Fis Hydref diwethaf cafwyd noson lwyddiannus iawn yng nghwmni'r Hennessys a gwelwyd llawer o wynebau newydd yno. Y Ffair Gaeaf a drefnwyd ym mis Tachwedd oedd yr un fwyaf llwyddiannus erioed a chodwyd dros £4000.

Ar 5 Chwefror, cafwyd Noson Fecsicanaidd gydag adloniant a bwyd Mecsicanaidd. Edrychir ymlaen hefyd at Noson Dafydd Iwan ar 26 Mawrth, Noson yng Nghwmni'r Sêr ar 30 Ebrill a Noson yng Nghwmni *Cwlwm* ar 28 Mai.

Mae'r nosweithiau yma yn gyfle gwych i'r rhieni a'r athrawon gymdeithasu a gwerthfawrogir yn fawr iawn yr arian a godir i'r ysgol.


### Rygbi i Ferched
Llongyfarchiadau i Rachel Anderson, Blwyddyn 11, ar gael ei dewis yn aelod o garfan rygbi merched Cymru. Mae Rachel bellach wedi cael ei dewis yn aelod o'r tîm i chwarae dros Gymru yn erbyn tîm prifysgolion yr Alban yng Nghaeredin ym mis Chwefror. Pob hwyl iddi!

### Gala Nofio Genedlaethol yr Urdd



Cynhaliwyd Gala Nofio Genedlaethol yr Urdd i blant ysgolion uwchradd ym Mhwll Nofio Treffynnon ddydd Sadwrn, 23 Ionawr. Bu'r disgyblion canlynol yn cynrychioli'r ysgol a'r sir - Daniel Rossiter, Nadia Turner, Katherine Ford, Gethin Thomas, Luke Maxwell, Aled Evans a Iestyn Shapey.

Bu'n ddiwrnod llwyddiannus iddynt. Cymerodd Daniel Rossiter ran yn y Ras Pila Pala. Daeth Nadia Turner yn chweched yn y Ras Rydd, a Katherine Ford yn bedwerydd yn y Ras Rydd a'r ras Broga. Daeth bechgyn Blwyddyn 10 yn ail yn y Ras Gyfnewid Gymysg a chyntaf yn y Ras Gyfnewid Rydd. Roedd yn sicr yn werth teithio'r holl ffordd i Dreffynnon.



Aled Evans, Iestyn Shapey, Luke Maxwell a Gethin Thomas

# YSGOL PLASMAWR

## CLWB "ROBOT WARS"

Yng nghlwb "Robot Wars" yr ysgol, rhoddir cyfle i ddisgyblion ddatrys nifer helaeth o broblemau cynllunio trwy weithgareddau ymarferol. Disgwylir iddynt gynllunio ac adeiladu robot syml o ddefnyddiau wedi eu hailgylchu. Yn wahanol i'r rhaglen deledu, ni chaniateir arfau ar y robotau.

Mae'r clwb o ddiddordeb i fechgyn a merched blynyddoedd 7 - 9. Ar ddiwedd y tymor bydd y robotau yn cystadlu mewn gêm bêl-droed, a pha un bynnag sydd yn dal i redeg ar y diwedd fydd yn fuddugol.

- **Mr Rhys Roberts** (Pennaeth Technoleg Ysgol Plasmawr)



## BAT CHAYIL

Iddewes ydw i. Rydw i'n dair ar ddeg mlwydd oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr. Y llynedd fe wnes i rywbeth o'r enw *Bat Chayil*. Rydych chi siŵr o fod yn meddwl, beth ar y ddaear yw *Bat Chayil*?

Wel, *Bat Chayil* yw arholiad mae merched sy'n Iddewon yn ei sefyll pan fyddant yn ddeuddeg. Mae bechgyn yn gwneud yr arholiad yma pan fyddant yn dair ar ddeg ac maent hefyd yn darllen o'r *Torah* (llyfr sanctaidd yr Iddewon).

Mae arholiad y merched yn llawer anoddach nag un y bechgyn! Dim ond un arholiad y mae'n rhaid i'r bechgyn ei wneud, a hynny ar wybodaeth gyffredinol. Mae'r merched yn gorfod gwneud dau arholiad ysgrifenedig, un ar wybodaeth gyffredinol ac un ar hanes Israel ac Israel heddiw. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i ferched sefyll arholiad llafar a chywaith am y cartref Iddewig. Yn ystod yr haf, fe wnes i'r arholiadau ac mi ges i'r canlyniadau ychydig o wythnosau yn ddiweddarach. Cefais 90% yn yr arholiad ysgrifenedig, 87% yn yr arholiad llafar a 65% yn y cywaith.



Roeddwn i'n hapus iawn gyda fy marciau ond doeddwn i ddim yn meddwl fy mod wedi gwneud mor dda â hynny nes daeth llythyr trwy'r post. Roedd y llythyr yn dweud fy mod wedi cael y marc uchaf yn y prawf ysgrifenedig ym Mhrydain. Roeddwn i mor hapus.

Yn ddiweddarach, fe ges i *menorah* fel gwobr. *Menorah* yw canhwyllbren gyda naw cannwyll. Rydym yn goleuo'r *menorah* yn ystod gŵyl *Chanukah*, sydd tua amser Nadolig. Mae'r *menorah* yn brydferth iawn fel y gallech weld o'r llun.

Dydw i ddim yn gallu credu fy mod wedi bod mor lwcus!

*Sarah Liss* (Blwyddyn 8)

## CHWARAEON RHYNGLYSOL

Cynhaliwyd cystadlaethau rhynglysol cyntaf Plasmawr ar ddiwedd Tymor y Nadolig. Bwriad yr adran Addysg Gorfforol oedd ennyn diddordeb yn y disgyblion mewn cystadlu dros eu llys. Cafwyd cystadleuaeth 6 pob ochr pêl-droed, pêl-rwyd, traws gwlad a hwyl ras i bawb arall. Bu'r cystadlaethau yn llwyddiannus iawn gyda chwarae o safon uchel, a chystadlu brwd yn y traws gwlad. Yn sicr, y prif reswm dros lwyddiant y diwrnod oedd brwdfrydedd a blaengaredd y disgyblion. Fe wnaeth pob disgybl gystadlu mewn o leiaf un gystadleuaeth yn ystod y diwrnod. Wedi diwrnod llawn o gystadlu fe orffennwyd gyda llys Nantlais ar y blaen, a llys Curig, Crwys ac Elfed yn ysu i ddal lan yn y cystadlaethau amrywiol a fydd yn cael eu cynnal ar ddiwedd pob tymor. **"C'mon Crwys!"**

- Adroddiad gwrthrychol iawn gan **Mr Simon Davies** (Pennaeth Addysg Gorfforol Ysgol Plasmawr)

Dyma restr o'r pencampwyr rhynglysol:

| **Pêl-droed** | | **Pêl-rwyd** | |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn 7 | Gregg Morgan | Blwyddyn 7 | Rebecca Thomas |
| Blwyddyn 8 | Andrew Bloxham | Blwyddyn 8 | Louise Peet |
| Blwyddyn 9 | Christopher Griffin | Blwyddyn 9 | Lauren Goddard |
| **Trawsgwlad / Bechgyn** | | **Trawsgwlad / Merched** | |
| Blwyddyn 7 | Siôn Boyd | Blwyddyn 7 | Amy Goodfellow |
| Blwyddyn 8 | Geraint Passmore | Blwyddyn 8 | Elin Stewart |
| Blwyddyn 9 | Steven Davies | Blwyddyn 9 | Anna Saunders |



## GOHEBIAETH


*Annwyl Olygydd,*

Rwyf yn gwneud casgliad o enwau cyntaf Cymreig, gan geisio bod mor gynhwysfawr â phosibl. Hyd yn hyn rwyf wedi casglu tua 1,600 o enwau. Buaswn yn ddiolchgar pe bai eich darllenwyr sy'n gwybod am enwau Cymraeg anghyffredin neu brin yn cysylltu â mi cyn gynted ag y bo modd.

Yr eiddoch yn ffyddlon,
**Meic Stephens**
10 Heol Don, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AU
Ffôn: 01222 623359

# NEWYDDION YR URDD

## Trip yr Urdd i weld Manchester United v Aston Villa



Ddechrau mis Rhagfyr trefnwyd trip gan yr Urdd yng Nghaerdydd i fynd i weld Manchester United yn chwarae Aston Villa yn Birmingham. Cafwyd ymateb gwych gyda dros 150 o blant yn ceisio am le ar y trip. Rhaid oedd dewis 45 lwcus i fynd ar y trip o ysgolion Melin Gruffydd, Pen-cae, Treganna, Coed y Gof, Bro Eirwg, a'r Wern. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r sawl sy'n mynychu Clwb Pêl-droed yr Urdd a'r sawl a gymerodd ran yng ngweithgareddau hanner tymor yr Urdd. Cafwyd diwrnod bythgofiadwy wrth i'r plant ddod wyneb yn wyneb â'u harwyr, Ryan Giggs, David Beckam a Dwight York.



Trip i weld Manchester United

## Clwb Pêl-droed yr Urdd i Ferched



Mae'r Urdd yng Nghaerdydd wedi sefydlu Clwb Pêl-droed i Ferched Blynyddoedd 4, 5 a 6 ers dechrau mis Ionawr. Mae'r clwb yn cwrdd bob nos Fercher rhwng 5.30 a 6.30 p.m. yng Nghampfa Glantaf dan hyfforddiant Guto Williams. Mae croeso i aelodau newydd, does dim angen unrhyw brofiad i ymaelodi â'r clwb. Cost: £1 y sesiwn.



Ysgol Cardiff High, enillwyr tarian y Gala Nofio Uwchradd

## Cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd

Ychydig cyn y Nadolig cynhaliwyd Cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd ar gyfer ysgolion Caerdydd a'r Fro. Cafwyd ymateb da iawn gyda dros 20 o dimau yn cymryd rhan. Ysgol Gynradd Eglwys Newydd a enillodd y gystadleuaeth a byddent nawr yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir yn y gystadleuaeth genedlaethol yn Aberystwyth fis Mai.

Hoffai'r Urdd ddiolch i ysgolion , Coed y Gof, Bro Eirwg, Allensbank, Llanisien Fach, Eglwys Newydd, Eglwys Wen, Rhydypennau, Pen-cae, St Joseph's, Treganna , Marlborough a Iolo Morganwg am eu cefnogaeth.



Ysgol Eglwys Newydd, enillwyr y cystadleuaeth pêl-rwyd

## Cystadleuaeth Nofio Uwchradd yr Urdd

Ganol mis Rhagfyr trefnwyd Gala Nofio Uwchradd yr Urdd yng Ngerddi Sophia, Caerdydd, ar gyfer aelodau ysgolion uwchradd y sir. Dyma'r tro cyntaf i'r Urdd drefnu Gala Nofio uwchradd a derbyniom ymateb da i'r achlysur gydag ysgolion Glantaf, Plasmawr, Cardiff High, Teilo Sant a Llanedeyrn High yn cymryd rhan. Aeth yr enillwyr ymlaen i gynrychioli'r Sir yn Nhreffynnon ganol mis Ionawr. Cyflwynwyd tarian Nofio'r Urdd i Ysgol Cardiff High y flwyddyn hon am ennill y nifer fwyaf o rasus. Hoffai'r Urdd ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.



## Gweithgareddau hanner tymor Chwefror '99

- Trip Rygbi Cymru v Iwerddon yn Wembley i flynyddoedd 7,8 a 9.
- Cwrs 'hyfforddi' pêl-rwyd i ferched blynyddoedd 11 & 12 Glantaf ar y cyd â WNA
- Trip i nofio yn yr Aquadome i flynyddoedd 5 a 6
- Cwrs Pêl-droed yng Ngerddi Sophia i flynyddoedd 2,3,4,5 a 6
- Trip i nofio yn yr Aquadome i flynyddoedd 7 a 8

Am ragor o fanylion, cysylltwch â Siân Lewis Ffôn: 236201.

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**
**Llanbedr Pont Steffan a'r Fro '99**

**Yn eisiau**

**Cân**

i groesawu pawb i'r Ŵyl

*Addas i'w chanu gan bobl ifainc*

Dyddiad cau Mawrth 1af

Ffoniwch Swyddfa'r Urdd

01554 880890

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies



## Y Bêl Hirgron



Yr ydym unwaith eto yng nghanol prysurdeb a chyffro Pencampwriaeth y Pum Gwlad, er gwaetha'r pryder ddechrau'r flwyddyn ynglŷn â'r dyfodol. Arian oedd wrth wraidd y pryder hwnnw a'r Saeson a'i hachosodd, gan na rannwyd yr arian a gawsant gan Gwmni Teledu Sky am adael i'r bobl hynny deledu gornestau Lloegr rhwng y pedair - neu'r pum - gwlad. Er mor braf fyddai cael cyfle i ddiarddel y wlad honno unrhyw bryd, dipyn yn dlotach fuasai'r bencampwriaeth hebddi, rhaid dweud; daethai'r Eidal yn eu lle ond bydd yn rhaid i'r rheiny aros ddwy flynedd cyn ymuno â hi.

Yr oedd hi'n hollbwysig yr enillem ni yn erbyn yr Alban yn Nin Eiddin yng ngornest gynta'r tymor, ac ni fyddai'r tymor yn un llwyddiannus oni bai inni ennill dwy o'r tair gornest arall - pa obaith oedd y gellid cyflawni'r gamp honno oedd cwestiwn mawr ddechrau'r flwyddyn. Erbyn hyn, dylai fod rhyw fath o syniad gennym ar gyfer y dyfodol a Chwpan y Byd, ond bydd yn rhaid chwarae yn erbyn Ffrainc yn eu Stadiwm newydd ym Mharis ar ôl curo (?) Iwerddon 'gartref' yn Wembli. Proffwydais i ers blynyddoedd na churem y Ffrancod ym Mharis byth eto, ond os oes rhinweddau o gwbl gennyf, nid darogan cywir yw un ohonynt. Yr oeddem ni wedi bod yn fuddugoliaethus yn ein hail ornest ar Barc y Tywysogion yn 1975, ac o bum cais i un, ond nid enillwyd yr un ornest ar y maes hwnnw wedyn yn yr un ymweliad ar ddeg â'r maes. Nid dyma'r amser i roi rhagor o ystadegau, bid siŵr; codi'r hyder a'r gobaith yw'r angen. Daw rhagolwg ar honno yn rhifyn nesaf y papur, gobeithio, ynghyd â'r bedwaredd ornest yn Wembli yn erbyn Lloegr, 11 Ebrill.

Nid oes fawr i'w ddweud am ein clybiau, ysywaeth. Ni welais na Chaerdydd nac Abertawe, yn unol â'm penderfyniad ddechrau'r tymor, ond prin y gellid ymhyfrydu yn record y ddau yn eu gornestau dibwyntiau (prin na ddywedwn 'dibwynt') yn erbyn clybiau Lloegr. Denasant dorfeydd niferus, ond sawl gwaith y bu'n rhaid iddynt wynebu timau cryfaf y clybiau hynny? Ymhlith y prif glybiau sy wedi aros i chwarae yn ein Prif Adran, Llanelli a Phontypridd yw'r gorau o ddigon ac mae record y ddau glwb yng nghystadleuaeth Tlws Her yr Undeb yn profi hyn. Gwelais eu gornest ar y Strade ddechrau Rhagfyr yn y Cynghrair ond un siomedig oedd honno - un cais a sgoriwyd a hwnnw yn gynnar gan Kevin Morgan dros Bontypridd. Yn ei ornest gyntaf dros Lanelli wedi iddo ymuno â nhw o glwb Glynebwy, ciciodd Byron Hayward holl bwyntiau Llanelli, sef wyth gôl gosb; 24-16 oedd y canlyniad.

Uchafbwynt y tymor i mi oedd chwarae Pontypridd yn eu dwy fuddugoliaeth gampus yn y Tlws yn erbyn Natal (32-14) a Chanada (52-10); yr oedd cyflwr y maes yn Heol Sardis yn echrydus ar y ddau Sadwrn, ond gwelwyd chwarae cyffrous, medrus, pan oeddynt yn trafod y bêl yn gelfydd wrth redeg a phasio bob cyfle a gaent. Sgoriwyd deg cais yn y ddwy ornest i brofi ei bod hi'n gwbl bosibl chwarae rygbi deniadol a llwyddiannus ar faes lleidiog mewn glaw trwm. Boed hynny'n wers i'n holl chwaraewyr.

## Pêl-droed

### Caerdydd - dyrchafu neu beidio?

Er bod gan Gaerdydd bedwar pwynt o fantais ar frig y drydedd adran ar hyn o bryd 'does neb yn y clwb yn rhagdybio dyrchafiad ar ddiwedd y tymor ac mae pedwar mis anodd yn weddill o'r tymor - a'r meysydd yn lleidiog neu'n galed gan rew. Fe ddywedodd Frank Burrows (y rheolwr) fwy nag unwaith yn ddiweddar fod neb yn ennill pencampwriaeth ym mis Ionawr ac mae pawb yn y clwb yn ymwybodol o'r hyn sydd i'w gyflawni.



O leiaf mae gan y clwb bellach, gyda dyfodiad Jason Bowen o Reading, bedwar chwaraewr ar hugain ar y llyfrau, a chystadleuaeth iach am bob safle bron yn y tîm - ac mae cyfle i fenthyca chwaraewyr os bydd angen.

Sail dyrchafu bob tro yw amddiffyn cadarn, di-ildio - ac yn hyn o beth, mae record amddiffynnol Caerdydd gyda'r gorau yn yr adran - ac arweiniad a phrofiad Meic Ford (eu capten) ochr yn ochr â dau farciwr arall sy bennaf gyfrifol am hyn. Gyda'u patrwm o chwarae mae dau gefnwr ymosodol (*wing-backs*) sef Mark Delaney a Wayne O'Sullivan a phrin fod eu gwell yn y drydedd adran - y ddau yn denu edmygedd parhaus nifer o glybiau o'r Uwch Adran. Y tu ôl i'r pump yma mae golwr gorau'r adran sef Jon Hallworth.

Fe enillir neu fe gollir gêm yng nghanol y cae yn aml - a'r angor yma yw Richard Carpenter. Efe yw maen llog y canol gan ryddhau Craig Middleton, Danny Hill neu Jason Fowler yn eu tro i dreiddio ac i ymosod ar amddiffyn y gwrthwynebwyr (a does yr un amddiffynnwr yn or-hoff o wynebu'r fath chwaraewyr).

Dau flaenwr yn unig sydd yn y patrwm, sef Kevin Nugent a John Williams yn bennaf - a chydchwarae deallus y ddau yn peri problemau di-ri i amddiffynfeydd - Williams gyda'i gyflymdra (er colli ambell gyfle i sgorio) a Kevin Nugent wrth ddal y bêl i fyny - hyd nes bod cymorth o ganol y cae neu'r esgyll.

Tybed a oes angen o leia' ddau chwaraewr arall ar y clwb? Pe bai Carpenter neu Nugent allan am gyfnod maith buasai'r golled yn enfawr a buasai'n rhaid newid patrwm y chwarae. Mae llawer o'r farn hefyd fod angen blaenwr a all fanteisio ar y cyfleon niferus y mae chwarae deallus y tîm yn eu creu. (Yn anffodus, mae chwaraewyr felly yn arswydus o brin.) A fydd dyrchafu ar ddiwedd y tymor? Os bydd, yn ôl Frank Burrows, fe fydd hyn flwyddyn cyn y disgwyl - ac os dyrchafu, rhaid gofalu fod yr adnoddau a'r chwaraewyr ar gael i gadarnhau'r safle mewn adran uwch.

Mawr fydd y ddyled hefyd i Wayne Nash a'i dîm sy'n gofalu am drin y maes. Er gwaethaf pob tywydd anffafriol mae'r wyneb mewn cyflwr gwych.

**Howard Spriggs**

## Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

# CYFEILLION PLASMAWR

### A yw bywyd yn ddiflas?
### A ydych yn chwilio am gwmni da?

Ymunwch â ni!

Mae ein Cymdeithas Rhieni wedi trefnu nosweithiau difyr dros y misoedd nesaf.

Dewch i ddawnsio, canu, bwyta a rasio ceffylau gydag athrawon a rhieni Plasmawr.

Cysylltwch â Mrs. Siriol Wilde am fwy o fanylion.

'Rydym yn edrych ymlaen i glywed gennych!

**Rhif Ffôn yr ysgol –**
**(01222) 405499**

**Rhif Ffacs yr ysgol –**
**(01222) 405496**

---

## CAPEL TABERNACL CAERDYDD

**Côr a Cherddorfa'r Capel**

*yn cyflwyno*

# GLORIA

*Vivaldi*

**10fed o Fawrth, 1999**

*Unawdwyr:*
**Rhian Owen, Siriol Williams**

Mynediad: £4.00, plant £2.00

---

## CYMDEITHAS BRODWAITH CYMRU

Cynhelir cwrs un-dydd dan nawdd y gymdeithas uchod yn festri capel Minny St. ar Ddydd Sadwrn 13 Mawrth o ddeg tan tri o'r gloch.

Prif amcan y gymdeithas yw hyrwyddo a meithrin unrhyw grefft sydd yn defnyddio edau a nodwydd i greu gwaith addurnol, gan weithio'n gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

*Am wybodaeth bellach, ffoniwch*
**Enyd Evans 564794 / Mai Davies 751192**

---

**Rh ag**

## RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG
**PARENTS FOR WELSH EDUCATION**

DATHLU TŴF ADDYSG GYMRAEG YN 50 MLWYDD OED

**CWPAN DATHLU RHAG**




Dyma gyfle gwych i chi archebu
CWPAN DATHLU TŴF ADDYSG GYMRAEG
Dim ond £5.00 yr un
Cwpan safonol o waith Crochenwaith Rymni, Caerdydd
Yn cynnwys englyn o waith **Rhys Dafis:**

*Gwarchod, gwylied pob hedyn â'n dyheu*
*Nes o'n daear gyndyn*
*O gae i gae daw ŷd gwyn*
*Yn had i'r gwanwyn wedyn.*

### FFURFLEN ARCHEBU

**YSGOL** ____________________
(neu gysylltydd)

**CYFEIRIAD** ____________________

____________________

____________________

| | |
|---|---|
| **Nifer:** | |
| **Pris:** £5.00 | £ |
| **Cyfanswm:** | **£** |

Danfonwch yn ôl i: **Mr. Alun Thomas, Alltwen, 4 Highfield Gardens, Bassaleg, Casnewydd, Gwent NP1 9LR**

---

# Elle
## Dress Agency

Os oes gennych gamgymeriadau ffasiwn drud ac am eu gwerthu, neu os ydych chi'n chwilio am rywbeth arbennig – **Mondi, Christian Dior** neu **Jacques Vert** efallai – a hynny am lai na hanner eu pris gwreiddiol, dewch draw am sgwrs a phaned.

ELLE,
41a Stryd Fawr, Y Bontfaen.
*(Uwchben fferyllfa Lloyds)*
Ffôn: 01446 - 775687

*Y SIOP HYNAF O'I MATH YNG NGHYMRU*

**J. A. HUGHES**
**gyda**
**REES WOOD**
**a TERRY**

A ydych chi wedi cael
**damwain?**

Efallai y gallwch hawlio
**iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf
**yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222

CÔR MEIBION DE CYMRU
FOUNDED 1982

*Mae*

*Côr Meibion De Cymru*

*wedi derbyn gwahoddiad i*

*Gymanfa Ganu*
*Gogledd America*

*yn Ottawa, Canada yn y flwyddyn 2000.*

*Os hoffech ymuno â'r Côr neu am ragor o wybodaeth, neu manylion am weithgareddau'r côr:*

***Ffoniwch Huw Jones 01639 - 642623***

*Ymarfer yng Nghaerdydd, Resolfen neu Griffithstown.*

**SWYDDFA'R POST**

**THE POST OFFICE**

**CANOLFAN IAITH GYMRAEG SWYDDFA'R POST**

Os hoffech gysylltu â ni yn Gymraeg i gael manylion am y gwasanaethau sydd ar gael ac i wneud ymholiadau:

ffoniwch

**0345 468 469**

SWYDDFA'R POST    Post Brenhinol Royal Mail    PARCEL FORCE WORLDWIDE

CYNHYRCHIAD

**DALIER SYLW**

**Y MADOGWYS**

gareth miles

**y stiwdio, chapter, caerdydd**

**nos wener 19, nos sadwrn 20 mawrth**

**8.00 y.h.**

**tocynnau: £6.00 (£4.00 gost)**

**ffôn: theatr ardudwy (01222) 304400**

**cadwch y chwedlau'n fyw!**